# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Richmond House**

**71 Ffordd Brighton**
**Y Rhyl**
**LL18 3HL**

## Dyddiad Cyhoeddi

**19 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Richmond House yn darparu gofal personol a llety i 35 o bobl 55 oed a throsodd sydd â dementia. Richmond House (Rhyl) Ltd sydd wedi'i gofrestru fel y darparwr. Roedd 33 o bobl yn byw yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae unigolyn cyfrifol wedi cael ei enwebu ar gyfer y sefydliad ac mae rheolwr y cartref wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Caiff y bobl sy'n byw yn Richmond House eu trin â pharch ac maent yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar y person gan dîm o staff sy'n deall eu dewisiadau unigol. Maent yn byw mewn cartref glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r tîm o staff yn ymrwymedig i sicrhau bod y bobl yn cael gofal yn y ffordd y dymunant ei gael a chaiff arwain yn dda gan dîm rheoli sy'n rhoi cymorth a chyfleoedd hyfforddi iddynt yn rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth dîm rheoli sydd wedi ymrwymo i'r broses sicrhau ansawdd ac i wella canlyniadau i'r bobl sy'n byw yn y cartref.

### 2. Gwelliannau

Cafodd y meysydd canlynol i'w gwella eu nodi yn yr arolygiad diwethaf:

- Dylai ymweliadau'r unigolyn cyfrifol gael eu cofnodi. Mae gwelliannau wedi'u gwneud ac maent yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.
- Dylai'r unigolyn cyfrifol roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r amgylchedd. Mae gwelliannau wedi'u gwneud ac maent yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.
- Dylid cynnal adolygiad ansawdd o'r gwasanaeth. Mae gwelliannau wedi'u gwneud ac maent yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach.
Mae hyn yn cynnwys:

- Cynlluniau gofal ac asesiadau risg.
- Meddyginiaeth.
- Cypyrddau dillad.
- Biniau pedal.
- Hyfforddiant ar feddyginiaeth.
- Goruchwylio staff.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu trin â pharch, cânt eu hannog i gymdeithasu a chânt eu cefnogi gan dîm o staff sy'n deall yr hyn sydd orau ganddynt. Gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i annog ysgogiad meddyliol a chorfforol a gallant wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff dewisiadau deietegol y bobl eu deall a gall y bobl fynegi eu hunain yn eu dewis iaith.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael budd o gwblhau gweithgareddau. Mae cydlynydd gweithgareddau wedi'i gyflogi yn y cartref ac mae'n cynnal gweithgareddau dyddiol i'r rhai sydd am gymryd rhan. Roedd gweithgareddau'n cael eu cynllunio fis ymlaen llaw a gwelsom eu bod yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar roi ysgogiad meddyliol a chorfforol cadarnhaol i'r bobl. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys darllen papurau newydd, gwneud croeseiriau, gwneud ymarferion eistedd dyddiol, cwisiau, hel atgofion, celf a chrefft, sesiynau maldod a phlannu. I'r rhai oedd am gymryd rhan, roedd gweithgaredd wythnosol bore coffi ‘cerddoriaeth ar gyfer yr ymennydd’ yn cael ei gynnal lle y gallent gymdeithasu â phobl o gartrefi eraill. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar 14 o bobl yn cymryd rhan mewn sesiwn ganu ar thema'r 1960au gyda diddanwr a oedd yn ymweld â'r cartref. Gwnaeth pob person ganu, curo dwylo neu ddefnyddio'r adnoddau a ddarparwyd i gwblhau ymarferion eistedd. Gwelsom y bobl yn gwenu, chwerthin a bloeddio cymeradwyaeth, a gwnaeth y staff ddawnsio â'r rhai a oedd am wneud hynny. Roedd bwrdd gweithgareddau yn y brif lolfa/ystafell fwyta yn rhoi gwybod i'r bobl am weithgareddau oedd i ddod a ble y byddent yn cael eu cynnal. Y brif lolfa oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer y gweithgareddau grŵp yn bennaf, a gallai'r bobl ddefnyddio'r lolfa gerdd i wrando ar CD â thema a'r ystafell deledu i wylio ffilm ar DVD. Byddai digwyddiadau â thema fel ‘noson Eidalaidd’, Sul y Mamau a gwyliau cenedlaethol eraill yn cael eu dathlu'n rheolaidd ac roedd y gwasanaeth yn cynnal ‘noson partneriaeth dementia’ cyn bo hir ar gyfer aelodau o deuluoedd. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd, a gwnaethant ganmol yr amrywiaeth oedd ar gael. Dywedodd tri unigolyn wrthym fod y gweithgareddau'n ardderchog, a dywedodd dau unigolyn wrthym fod digonedd o bethau i'w gwneud a bod rhywbeth yn mynd ymlaen drwy'r amser. Dywedodd dau unigolyn wrthym eu bod wedi bod ar deithiau i leoedd diddorol. Dywedodd pob un o'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r bobl sy'n byw yn y cartref a bod gweithgareddau'n rhan bwysig o ethos yr hyn a ddarperir gan y gwasanaeth. Roedd y wybodaeth a gafwyd o bob un o'r holiaduron perthnasau/cynrychiolwyr yn nodi bod digonedd o weithgareddau, eu bod yn "ardderchog" a bod y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cael cyfleoedd i gael eu cynnwys a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn profi cynhesrwydd, yn cael cymorth i ymdopi â chyfnodau anodd o newid ac yn derbyn gofal gan staff sy'n eu cynnwys mewn sgyrsiau. Gwelsom saith aelod o'r staff gofal ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom arsylwi arnynt yn cynnwys y bobl mewn sgyrsiau ac yn rhoi cymorth iddynt â pharch,

caredigrwydd ac amynedd. Roedd y lefel staffio uchel yn sicrhau y gallai'r staff gymryd eu hamser yn ymgysylltu â'r bobl. Gwelsom y staff yn adnabod arwyddion pan oedd angen defnyddio technegau fel hiwmor i dynnu sylw unigolion. Hefyd, gwnaethom eu gweld yn rhoi tawelwch meddwl i'r bobl mewn ffordd ddigynnwrf a'u clywed yn eu canmol a'u hannog mewn ffordd gadarnhaol yn rheolaidd. Roedd pob unigolyn y gwnaethom siarad ag ef yn canmol y tîm o staff. Gwnaethant ddefnyddio geiriau fel "*kind*", "*respectful*", "*very nice*" a "*marvellous*" i ddisgrifio'r staff. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r holiaduron perthnasau/cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn disgrifio'r staff fel a ganlyn, *"always friendly and caring"*, *"wonderful and very kind"* ac, o ran y ffordd roeddent yn trin y bobl, *"treated with great respect"*. Dywedodd pedwar unigolyn wrthym eu bod wedi gwneud ffrindiau yn y cartref a bod y cartref yn annog ymweliadau gan anwyliaid a ffrindiau. Hefyd, roedd sylw wedi cael ei dalu i ymddangosiad personol pawb yn unol â'u dymuniadau. Dywedodd tri unigolyn wrthym fod y staff yn eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl a gwnaethant nodi eu bod yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu trin â pharch, mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol ac mae'r staff yn ymwybodol o'u dewisiadau.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o ddilyn deiet iach. Gwnaethom edrych ar y fwydlen dreigl bedair wythnos a gwelsom ei fod yn cynnig dewis o brydau iach. Byddai prydau amgen yn cael eu paratoi pe na bai pobl yn hoffi'r hyn a oedd yn cael ei gynnig a gwelsom hyn yn digwydd yn ystod ein harsylwadau. Roedd prydau'n cael eu paratoi'n ffres a dywedodd staff y gegin wrthym eu bod yn ymwybodol o ddewisiadau ac anghenion deietegol y bobl. Roedd pob un o'r bobl a'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y bwyd ac yn defnyddio geiriau fel *"tasty"*, *"lovely"*, *"very good"* a *"good quality"* i ddisgrifio'r prydau. Mae bwydlen amrywiol yn cael ei chynnig i'r bobl sy'n byw yn y cartref a deellir yr hyn maent yn ei ffafrio'n bersonol a'u hanghenion deietegol.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gwasanaeth dwyieithog. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Roedd tri unigolyn sy'n siarad Cymraeg yn byw yn y cartref yn ystod ein hymweliad. Dywedwyd wrthym fod pum aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl a bod pum aelod arall o staff yn deall Cymraeg ac yn gallu cynnal sgwrs mewn Cymraeg sylfaenol. Gwelsom o'r rotâu staff fod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi ond nad oeddent ar gael yn gyson ar bob sifft. Gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio'n gadarnhaol tuag at ddarparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg gan eu bod yn ystyried cyfieithu'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth. Roedd trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i'r staff allu defnyddio adnodd hyfforddi ar-lein yn y dyfodol er mwyn meithrin eu sgiliau Cymraeg. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod y ffaith nad oedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu'n gyson ar hyn o bryd wedi cael effaith negyddol ar ofal na hapusrwydd y bobl. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gofal a chymorth sy'n benodol i'w hanghenion unigol. Gwelwyd bod y cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y bobl a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r bobl yn cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwneir atgyfeiriadau yn brydlon. Mae angen gwelliannau mewn perthynas â sicrhau y caiff siartiau rhoi meddyginiaeth eu llofnodi'n gywir bob amser.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Edrychwyd ar ffeiliau gofal tri unigolyn a gwelsom fod pob un ohonynt yn cynnwys cynllun gofal sy'n benodol i'w hanghenion iechyd a chymdeithasol. Roedd dewisiadau personol y bobl a'u dewisiadau o ran ffordd o fyw wedi'u dogfennu a gwelsom fod pob ffeil yn cynnwys asesiad cyn derbyn wedi'i gwblhau. Roedd pob cynllun gofal a welsom yn cynnwys cynllun gofal sy'n benodol i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Roeddent hefyd yn ymgorffori newidiadau i drefniadau'r bobl gyda'r nos a chanllawiau i'r staff. Hefyd, gwelsom fod y cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am ofal yr unigolyn ers iddo ddechrau byw yn y cartref. Er bod y cynlluniau'n rhoi adroddiad manwl ar y gofal roedd y bobl wedi'i dderbyn yn y gorffennol, roedd hyn yn golygu bod gan aelodau newydd o'r staff lawer o wybodaeth i'w darllen a'i chofio fel rhan o'u proses sefydlu. Roedd y wybodaeth yn y cynlluniau gofal yn cyfateb i'r wybodaeth yn yr asesiadau risg ac roedd wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd. Hefyd, roedd y cofnodion gofal yn cynnwys canllawiau gan wasanaethau proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gwelsom y staff yn darparu gofal sy'n gyson â'r wybodaeth yn ffeiliau gofal y bobl. Dywedodd pob un o'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cynlluniau gofal yn cynnwys adlewyrchiad cywir o'r gofal a ddarperir ar hyn o bryd. Gwnaethant hefyd nodi bod y wybodaeth yn fanwl, yn eu helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac yn rhoi gwybod iddynt am yr hyn sydd orau gan y bobl. Er gwaethaf hyn, gwnaethant hefyd nodi bod y cynlluniau gofal yn cynnwys llawer o wybodaeth a allai fod yn anodd ei chofio. Trafodwyd â'r tîm rheoli y syniad o leihau faint o wybodaeth a geir drwy gynnwys gwybodaeth gyfredol a phenodol yn unig, a chyflwyno'r wybodaeth honno mewn fformat haws ei ddarllen. Gwnaethant roi gwybod i ni y byddent yn adolygu diwyg y cynlluniau. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir ac yn y ffordd y dymunant.

Mae'r bobl yn derbyn gofal amserol gan fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at wasanaethau proffesiynol mewn modd cyson. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn dangos bod atgyfeiriadau amserol yn cael eu gwneud at amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pryd bynnag fo anghenion y bobl yn newid. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn dogfennu'r math o gyswllt roedd y bobl yn ei gael, a pha mor aml, a'r argymhellion a wnaed gan wasanaethau. Wedyn, roedd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i gynlluniau gofal y bobl er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal cyfredol. Gwelsom fod ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu gwneud i'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 er mwyn diogelu pobl am eu bod yn agored i niwed. Mewn trafodaeth â pherthynas oedd yn ymweld â'r cartref, tynnwyd sylw at y ffaith bod y rheolwyr

yn *“ardderchog yn gadael i mi wybod os mae unrhyw newid yng nghyflwr fy mam”* a dywedodd y perthynas dan sylw ei fod yn cael ei wahodd i gyfarfodydd adolygu. Hefyd, roedd y wybodaeth a gafwyd yn holiadur un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn nodi mai un o brif gryfderau'r gwasanaeth oedd *"involving people in decision making”* . Deellir a rhagwelir anghenion iechyd unigol y bobl am eu bod yn gallu cael gafael ar gyngor, gofal a chymorth gan weithwyr proffesiynol.

Nid yw'r bobl bob amser yn derbyn gwasanaeth sy'n cofnodi'r broses o roi meddyginiaeth yn gywir yn gyson. Gwnaethom edrych ar Gofnod Rhoi Meddyginiaeth pob unigolyn a gwelsom sawl achos lle nad oedd y staff wedi llofnodi'r siartiau. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag eli a roddir ar bresgripsiwn ac achosion achlysurol mewn perthynas â meddyginiaeth ar ffurf tabledi. Golygai hyn ei bod hi'n anodd cadarnhau a oedd pobl wedi cael eu meddyginiaeth heb gyfri'r stoc ar bob achlysur. Gwnaethom drafod y materion hyn â'r tîm rheoli. Ymatebodd y tîm mewn modd rhagweithiol, gan siarad â'r staff a oedd ar ddyletswydd a rhoi gwybod i ni y byddai'n newid y broses bresennol ar gyfer archwilio meddyginiaeth. Gwnaeth hefyd nodi y byddai'n cynnal archwiliad ar unwaith ac yn mynd i'r afael â'r mater mewn sesiynau goruchwylio staff sydd i ddod ac yn y cyfarfod staff. Rhoddwyd gwybod i ni yn ystod ein hail ymweliad bod archwiliad meddyginiaeth ar fin cael ei gynnal a bod aelod o'r tîm rheoli wedi siarad â'r staff am y materion y tynnwyd sylw atynt. Gwelsom fod y tîm rheoli wedi mynd i'r afael â gwallau blaenorol mewn perthynas â meddyginiaeth gyda'r staff mewn modd cadarn a manwl. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio, ailgadarnhau eu cymhwysedd a darparu hyfforddiant ychwanegol. Ni welsom unrhyw effaith andwyol ar lesiant y bobl o ganlyniad i hyn. Ystyriwyd bod cofnodi'r adeg y rhoddwyd meddyginiaeth i'r bobl yn gywir a chwblhau archwiliadau rheolaidd yn feysydd i'w gwella. Mae angen bod yn fwy gwyliadwrus wrth gwblhau siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o amgylchedd sy'n fawr, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli a'u heiddo eu hunain ac maent yn gallu defnyddio amrywiaeth o lolfeydd lle y gallant gymdeithasu ag eraill neu fwynhau eu cwmni eu hunain. Ceir eitemau i helpu pobl sy'n profi anawsterau â'u cof yn yr amgylchedd, ac mae gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol wedi cael eu cwblhau.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Wrth i ni gyrraedd, gwelsom fod y cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Cawsom ein cyfarch gan aelod o staff a wnaeth gadarnhau pwy oeddem, a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â gweithdrefnau diogelwch tân. Gwelsom fod yr amgylchedd ffisegol yn cynnwys digon o le y tu mewn a'r tu allan i ddiwallu anghenion y bobl. Aethom o gwmpas yr adeilad gan edrych ar wyth ystafell wely, y brif lolfa/ystafell fwyta, tair lolfa ar wahân, y gegin, y golchdy a'r ardal awyr agored. Roedd pob rhan o'r cartref a welsom yn lân ac nid oedd unrhyw aroglau annymunol yno.

Roedd yr ystafelloedd gwely a welsom yn lân, yn daclus ac yn cynnwys dodrefn wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom fod y dodrefn a'r cyfarpar yn lân ac yn briodol i anghenion personol y bobl, fel gwelyau proffilio, cadeiriau olwyn a theclynnau codi. Roedd pob ystafell wely a oedd yn cael ei defnyddio a welsom yn cynnwys eiddo personol y bobl, fel pethau cofiadwy, gwaith celf a chrefft a ffotograffau o anwyliaid. Roeddent hefyd yn cynnwys larwm a oedd yn galluogi pobl i alw am gymorth pan fo angen. Dywedodd pob un o'r bobl sy'n byw yn y cartref y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus â'u hystafelloedd. Gwnaethant nodi bod lle ganddynt i groesawu ymwelwyr yn breifat yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn y lolfeydd cymunol. Dywedodd pob unigolyn wrthym ei fod yn hapus â'i ystafell a disgrifiodd tri unigolyn eu hystafelloedd fel "*lovely*", *"very nice"* a *"glân"* (clean). Roedd y wybodaeth ym mhob holiadur a ddychwelwyd gan berthnasau yn cadarnhau eu bod o'r farn bod y cartref yn lân a dywedodd un unigolyn fod y "*safon o glanweithdra yn uchel iawn".*

Roedd y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o lolfa digon o faint a oedd yn cynnwys digonedd o olau naturiol a digonedd o seddi a byrddau cyfforddus. Gwelsom y bobl yn defnyddio tair lolfa ar wahân sy'n seiliedig ar themâu. Roedd yr ardaloedd hyn yn helpu pobl â nam ar y cof i ganfod eu ffordd o gwmpas ac yn cynnig lle iddynt wylio'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth neu gael amser 'tawel'. Yn y prif goridor ar y llawr gwaelod, roedd murlun lliwgar wedi'i beintio ar thema glan y môr ac ardal ar thema coetir. Roedd eitemau ar gael i helpu pobl â dementia, fel gwrthrychau cysurlon a chyffyrddol, pethau cofiadwy hanesyddol, blwch chwilota ac ardal ar thema Swyddfa'r Post. Roedd gan bobl ag anawsterau symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn neu gymorth cerdded ddigonedd o le i symud o gwmpas yn yr amgylchedd ac roeddent yn gallu mynd i'r lloriau uwch drwy ddefnyddio lifft.

Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd bod marciau ar y carped yn y brif lolfa, bod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ymwybodol o'r mater ac y byddent yn mynd i'r afael ag ef. Yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom ddau farc ar y carped. Dywedodd tri aelod o'r staff a thîm rheoli'r cartref wrthym fod y carped yn cael ei lanhau ar unwaith pryd bynnag fo staen sylweddol yn

cael ei wneud a'i fod yn cael ei lanhau'n rheolaidd. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr wrthym eu bod yn ystyried ffyrdd cadarnhaol posibl o fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys gosod llawr arall. Gwnaeth yr arolygiad diwethaf hefyd argymell y dylai'r unigolyn cyfrifol roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r amgylchedd. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud gan fod llyfr cynnal a chadw yn cael ei gwblhau gan y staff pryd bynnag y bônt yn gweld mater sy'n peri pryder mewn perthynas â'r amgylchedd. Gwelsom fod y swyddog cynnal a chadw'n mynd i'r afael â materion yn gyflym ac yn dogfennu pryd y cafodd y gwaith ei gwblhau.

Roedd y gegin, y golchdy, y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi a welsom yn lân ac roedd eitemau a allai fod yn beryglus fel cynnyrch glanhau a menig finyl tafladwy wedi cael eu storio'n ddiogel ac nid oedd y bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu cael gafael arnynt. Gwnaethom edrych dros sampl o gofnodion iechyd a diogelwch mewn perthynas â rheoli heintiau, hylendid bwyd, nwyddau trydanol, cynnal a chadw cyfarpar a thân, a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau yn yr amser gofynnol. Hefyd, roedd y dogfennau'n cael eu harchwilio gan dîm rheoli'r cartref. Roedd gan y cartref sgôr Hylendid Bwyd o 5 (Da Iawn) ar hyn o bryd a ddyfarnwyd ym mis Awst 2018 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf sydd ar gael mewn perthynas â hylendid bwyd a diogelwch. Hefyd, roedd cynlluniau gwagio mewn argyfwng personol y bobl yn achos tân wedi cael eu cwblhau.

Roedd yr ardal awyr agored yn ddiogel, yn daclus ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Gallai'r bobl sy'n byw yn y cartref fynd allan i'r ardal awyr agored o'r brif lolfa. Roedd yr ardal yn cynnwys dau wely blodau uchel, pedair basged flodau grog, nodwedd ddŵr a detholiad o botiau perlysiau, blodau a phrysgwydd. Roedd hefyd yn cynnwys ardal eistedd wedi'i gorchuddio â gasebo a thŷ haf mawr y gallai pawb ei ddefnyddio.

Gwelsom fod cyfyngwyr ffenestri gwrth-ymyrraeth ychwanegol wedi cael eu gosod mewn ystafelloedd ar y llawr uchaf ond nid oedd y cypyrddau dillad wedi cael eu gosod yn sownd i'r waliau â bracedi diogelwch er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o berygl y gallant gael eu tynnu i lawr ac anafu pobl. Hefyd, gwelsom nad oedd biniau pedal yn cael eu defnyddio yn nhoiledau/ystafelloedd ymolchi en-suite y bobl, mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli heintiau. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol a thîm rheoli'r cartref fel materion i'w gwella a dywedwyd wrthym y byddent yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael cymorth gan staff sydd wedi'u fetio'n ddiogel, sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac sy'n cael cyfleoedd rheolaidd i hyfforddi. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan unigolyn cyfrifol a thîm rheoli sy'n ymroddgar ac yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon i'r bobl sy'n byw yn y cartref.

### Ein canfyddiadau

Mae'r tîm rheoli yn sicrhau atebolrwydd gweladwy ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl a'r staff. Roedd y Datganiad o Ddiben a gafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar yn darparu disgrifiad cywir o'r gwasanaeth oedd yn cael ei gynnig. Yn yr arolygiad diwethaf, argymhellwyd y dylid cofnodi ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol a chwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn perthynas â'r ddau fater. Gwelsom adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol a dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gweld yr unigolyn cyfrifol bron yn ddyddiol. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi'i leoli yn y cartref ac fe'i gwelwyd yn rhyngweithio â'r bobl sy'n byw yn y cartref ac aelodau o'r staff yn rheolaidd. Roedd yr adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau a gwelsom dystiolaeth bod y tîm rheoli yn y broses o gasglu gwybodaeth ynghyd ar gyfer yr adroddiad nesaf. Gwelsom fod y cartref wedi ymgynghori â'r bobl sy'n byw yno, eu teuluoedd/cynrychiolwyr ac aelodau o'r staff er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a'u profiadau ohono. Gwelsom nifer o lythyrau a chardiau diolch a anfonwyd gan berthnasau/cynrychiolwyr a oedd yn canmol y gofal a ddarparwyd i'w hanwyliaid. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu hannog i fynegi eu barn onest am y gwasanaeth a'u bod yn teimlo bod y cartref yn gwrando arnynt. Roedd gwybodaeth a gafwyd mewn holiadur gan weithiwr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn nodi bod y tîm rheoli'n *“open to receiving feedback”* ac yn *“empathic”.* Gwelsom yr unigolyn cyfrifol a thîm rheoli'r cartref yn cydweithio'n agos â'i gilydd ac yn trafod sut y gallent wella'r gwasanaeth ymhellach ar ôl yr arolygiad. Gwnaethom hefyd eu gweld yn mynd i'r afael â materion a oedd yn peri pryder i'r staff yn ystod ein hymweliad. Caiff y bobl fudd o wasanaeth sy'n ymrwymedig i'r broses sicrhau ansawdd a gwella yn barhaus.

Mae'r staff yn cwblhau proses sefydlu ffurfiol ac maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i hyfforddi. Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff a gwelsom eu bod yn cynnwys manylion am eu cymwysterau, geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), hyfforddiant a chofnodion goruchwylio. Fel rhan o'u proses sefydlu, roedd mentor yn cael ei neilltuo i aelodau newydd o'r staff ac roedd yr aelodau newydd hynny'n cwblhau fframwaith sefydlu a gydnabyddir yn genedlaethol a hefyd yn treulio wythnos yn cysgodi aelod profiadol o'r staff ar sifftiau. Hefyd, gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig bod aelodau newydd o'r staff yn cael eu monitro'n agos gan y tîm rheoli am gyfnod prawf o chwe mis. Dywedodd aelodau newydd o'r staff bod y broses sefydlu'n *“really thorough”*, *“brilliant”* a gwnaethant nodi ei fod yn eu paratoi ar gyfer eu rôl. Roedd y tîm o staff naill ai wedi ennill cymhwyster gofal lefel 2 neu uwch neu'n gweithio tuag at ennill cymhwyster gofal. Roedd cofnod hyfforddi'r staff yn dangos bod y staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant. Gwnaeth pob aelod o'r staff siarad yn gadarnhaol am yr hyfforddiant rheolaidd roeddent yn ei gael. Gwnaethant ddefnyddio geiriau fel “*very good”* a *“very informative”* i ddisgrifio'r hyfforddiant a gwnaethant nodi ei fod yn eu helpu yn eu rôl.

Roedd y cofnod yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant fel diogelu, ymwybyddiaeth o ddementia, rheoli heintiau a diogelwch tân. Gwnaethom hefyd arsylwi ar ddeg aelod o'r staff yn cwblhau sesiwn hyfforddi ymarferol ar ddiogelwch tân yn ystod ein hymweliad. Er gwaethaf hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu i'r tîm staff a bod pob aelod o staff uwch yn cael eu hyfforddi wrth weinyddu meddyginiaeth, gwelsom nad oedd yr holl staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth am feddyginiaeth ffurfiol. Gwnaethom drafod manteision darparu'r hyfforddiant hwn â'r rîm rheoli a chytunodd yr unigolyn cyfrifol y byddai'n mynd i'r afael â hyn. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael cymorth gan staff sydd wedi'u fetio'n ddiogel ac sy'n cael hyfforddiant amrywiol a rheolaidd.

Mae'r tîm rheoli'n sicrhau bod ethos a diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth ac yn rhoi gwerth ar y tîm o staff, ac mae'r staff yn cael cefnogaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Gwnaethom edrych ar gofnodion goruchwylio ac arfarnu'r staff. Gwelsom fod y staff wedi cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn gyson tan y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2018 ond prin oedd yr enghreifftiau o oruchwylio ffurfiol ar ôl hynny. Ystyriwyd bod sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn gyson yn faes i'w wella. Er gwaethaf hyn, roedd y staff yn llawn canmoliaeth i'r gefnogaeth roeddent yn ei chael gan y tîm rheoli a gwnaethant ddefnyddio geiriau fel *“amazing”*, *“excellent”*, *“approachable”* a *“very friendly”* i'w ddisgrifio. Gwnaethant hefyd nodi bod y tîm rheoli yn rhoi gwerth ar eu gwaith, eu bod bob amser ar gael ac nad oes unrhyw beth yn ormod o drafferth. Gwnaethant hefyd nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Roedd yr adborth a gafwyd ym mhob holiadur a ddychwelwyd gan berthnasau/cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref hefyd yn cynnwys gwybodaeth gadarnhaol am dîm rheoli a staff y cartref. Gwnaethant ddefnyddio geiriau fel *“open”*, *“honest”*, *“supportive”* a *“friendly”* i ddisgrifio'r tîm rheoli. Roedd y nodiadau goruchwylio a welsom yn ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eu hanghenion hyfforddi, eu barn ar y gwasanaeth a'u targedau ar gyfer y dyfodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu mewn modd cadarnhaol gan eu bod yn canmol y staff ac yn diolch iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Hefyd, roedd y cofnodion goruchwylio'n dangos bod sesiynau goruchwylio ymarferol yn cael eu cynnal bob chwe mis a oedd yn canolbwyntio ar ymarfer yr aelodau o'r staff. Gwelsom fod yr arsylwadau wedi cael eu cwblhau'n brydlon. Gwnaethom hefyd weld bod arfarniadau blynyddol y staff, ar y cyfan, wedi cael eu cwblhau a bod cynlluniau ar waith i sicrhau y byddai'r arfarniadau sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn y dyfodol agos. Nododd y staff fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a bod materion yn cael eu trafod yn onest ac yn agored. Gwnaethom edrych ar gofnodion y cyfarfod staff diweddaraf a oedd yn dangos bod materion gweithredol a barn y staff wedi cael eu hystyried a'u dogfennu. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth lle mae'r staff o'r farn bod y tîm rheoli'n eu cefnogi'n dda, yn gwrando arnynt ac yn rhoi blaenoriaeth i'w llesiant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Dylid ysgrifennu cynlluniau gofal ac asesiadau risg mewn fformat haws ei ddarllen.
- Bod yn fwy gwyliadwrus wrth gwblhau siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a'r broses archwilio. Mae'n bwysig cofnodi pryd y mae'r bobl wedi cael eu meddyginiaeth yn gywir drwy lofnodi'r cofnod bob tro.
- Byddai gosod y cypyrddau dillad yn sownd i'r waliau yn sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ddamweiniau.
- Cefnogi arferion rheoli heintiau drwy roi biniau pedal yn y toiledau/ystafelloedd ymolchi.
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o feddyginiaeth.
- Cwblhau sesiynau goruchwylio staff ffurfiol yn gyson.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal arolygiad arferol dirybudd yn y cartref ar 05 Medi 2018 rhwng 09:50 am a 19:15 pm ac ar 06 Medi 2018 rhwng 10:00 am a 14:15 pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad ag wyth unigolyn sy'n byw yn y cartref, yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr, y dirprwy reolwr, y cydlynydd gofal, y cydlynydd gweithgareddau, naw aelod o'r staff ar ddyletswydd, dau berthynas a oedd yn ymweld â'r cartref a diddanwr lleol a oedd yn ymweld â'r cartref.
- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI2). Mae'r adnodd hwn yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Gwelsom ddwy ystafell wely, pedair ardal gymunedol, y gegin, y golchdy a'r ardal awyr agored.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal tri unigolyn, ffeiliau tri aelod o staff, y datganiad o ddiben, adroddiad ar ansawdd y gofal, ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol, cyfarfodydd staff, rotâu staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff ac amrywiaeth o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân, diogelu pobl a rheoli heintiau.
- Gwybodaeth mewn holiaduron a gafwyd gan saith o'r bobl sy'n byw yn y cartref, pedwar perthynas/cynrychiolydd a chwe aelod o'r staff.
- Hefyd cafwyd gwybodaeth ychwanegol o adroddiad arolygu blaenorol AGC.
- Trafodwyd yr argymhellion â'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr, y dirprwy reolwr a'r cydlynydd gofal ar ddiwrnodau'r arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref Gofal i Oedolion – Hŷn** |
| **Person Cofrestredig** | **Richmond House (Rhyl) Ltd** |
| **Rheolwr/Rheolwyr Cofrestredig** | **Rebecca Wallis** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **35** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **07/03/2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **05/09/2018 a 06/09/2018** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |